



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG45755

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb interim o'r ymatebion

Datblygu a Ganiateir

Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 16 – Cyfarwyddiadau Erthygl 4

Medi 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Trosolwg

Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 16 yr ymgynghoriad ynglŷn â diwygiadau i weithdrefnau ar gyfer gwneud Cyfarwyddiadau Erthygl 4.

Y Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gais.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Planning.Director@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-hawliau-datblygu-ganiateir>

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Ymatebion	2
3. Ymateb y Llywodraeth.....	4
4. Y Camau Nesaf.....	6

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori 'Datblygu a Ganiateir' ar 16 Tachwedd 2021 ac roedd ar agor ar gyfer ymatebion tan 15 Chwefror 2022 - <https://llyw.cymru/diwygiadau-i-hawliau-datblygu-ganiateir>. Gofynnodd am farn ar gynigion i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd). Y diwygiadau arfaethedig oedd:
- cadw hawliau datblygu a ganiateir sy'n gysylltiedig â COVID-19
 - dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer anheddau sy'n cael eu defnyddio fel tai amlfeddiannaeth
 - diwygiadau i hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer arwynebau caled o fewn cwrtil tŷ annedd
 - estyn hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan
 - ailsefydlu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer strwythurau dros dro mewn ymateb i fflw adar
 - diwygiadau i weithdrefnau ar gyfer gwneud Cyfarwyddiadau Erthygl 4.
- 1.2 Roedd cyfanswm o 18 o gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori, gyda ffurflen safonol, i'w dychwelyd drwy'r post neu e-bost, a ffurflen ar-lein wedi'u darparu er mwyn hwyluso'r ymatebion.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 16 yn unig, ynglŷn â Chyfarwyddiadau Erthygl 4. Mae'r diwygiadau sydd wedi'u nodi yn rhan 8 o'r ymgynghoriad yn ofynnol fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r system rheoli datblygu a pholisi cynllunio yng Nghymru i helpu awdurdodau cynllunio lleol i reoli ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/deddfwriaeth-pholisi-cynllunio-ar-gyfer-ail-gartrefi-llety-gwyliau-tymor-byr>
- 1.4 Bydd crynodeb llawn o'r ymatebion i'r cwestiynau sy'n weddill yn yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach.

2. Ymatebion


C16. A ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer diwygio Cyfarwyddiadau Erthygl 4?

Y cefndir

- 2.1 Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yw un o'r offerynnau sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol (ACLIau) sy'n caniatáu iddynt ymateb i anghenion penodol eu hardaloedd. Maent yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyfyngu ar hawliau 'datblygu a ganiateir' a fyddai fel arall yn berthnasol yn rhinwedd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y GDCG") lle yr ystyrir ei fod yn briodol i wneud hynny. Nid yw Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn atal datblygu. Yn hytrach, mae'n ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol fel y gellir ystyried effeithiau cynllunio'r datblygiad cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ellir bwrw ymlaen ag ef.
- 2.2 Nododd yr ymgynghoriad sut y mae Llywodraeth Cymru am gefnogi ACLIau i reoli arfer hawliau datblygu a ganiateir lle byddai hyn yn niweidio amwynder lleol neu'r broses o gynllunio'r ardal yn briodol. Ystyriwyd bod y gweithdrefnau presennol ar gyfer gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4, gan gynnwys y gofyniad i bob Cyfarwyddyd gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru, yn rhwystr i fwy o ddefnydd o Gyfarwyddiadau.
- 2.3 Nododd yr ymgynghoriad ddull newydd arfaethedig o wneud Cyfarwyddyd, gan gyflwyno dau fath newydd o Gyfarwyddyd:
 - Cyfarwyddiadau sy'n dod i rym yn uniongyrchol – Cyfarwyddyd a fyddai'n dileu hawliau datblygu a ganiateir penodol yn syth heb ymgynghori lle mae angen i ACLIau weithredu'n gyflym er mwyn delio â bygythiad i amwynder ardal. Byddai'r Cyfarwyddyd yn para chwe mis ac yna'n dod i ben oni bai bod yr ACLI yn ei gadarnhau yn dilyn ymgynghoriad.
 - Cyfarwyddiadau nad ydynt yn uniongyrchol – Cyfarwyddyd a fyddai'n dileu hawliau datblygu a ganiateir nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y 'Cyfarwyddyd sy'n dod i rym yn uniongyrchol' a grybwyllir uchod. Byddai cyfnod cyhoeddusrwydd ac ymgynghori yn berthnasol cyn y gallai ACLI gadarnhau'r Cyfarwyddyd.
- 2.4 Ar gyfer y ddau fath o Gyfarwyddyd, byddai ACLIau yn ymgymryd â phob cam wrth baratoi a chadarnhau Cyfarwyddyd. Ni fyddai Gweinidogion Cymru bellach yn cymryd rhan wrth gadarnhau Cyfarwyddiadau. Fodd bynnag, byddai Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer i wneud Cyfarwyddyd sy'n addasu neu'n canslo Cyfarwyddyd a wneir gan ACLI, yn ogystal â gwneud eu Cyfarwyddiadau eu hunain.
- 2.5 Byddai rhai eithriadau sy'n atal gwneud Cyfarwyddyd ar gyfer rhannau penodedig o'r GDCG, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn parhau.

Ystadegau

Sector	Ydw	Nac ydw	Eraill (gyda sylwadau)	Heb ateb	Cyfanswm
Busnes	4	4	3	35	46
Asiantaeth y Llywodraeth/Sector Cyhoeddus Arall	3	0	0	2	5
Corff Proffesiynol/Grŵp Buddiant	5	1	1	12	19
Awdurdod Cynllunio Lleol	14	0	0	1	15
Trydydd Sector	1	0	0	4	5
Unigolion Preifat	6	6	1	28	41
Cyfanswm yr holl ymatebwyr	33	11	5	82	131



Crynodeb o'r sylwadau

- 2.6 Daeth cyfanswm o 49 o ymatebion i law ar gyfer cwestiwn 16.
- 2.7 Cafwyd cefnogaeth unfrydol gan awdurdodau cynllunio lleol gyda'r mwyafrif o randdeiliaid eraill a atebodd yn cefnogi'r cynigion hefyd.

- 2.8 Roedd symleiddio a hwyluso'r broses yn cael ei ystyried yn newid i'w groesawu a fyddai'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ymateb yn gyflym lle mae bygythiad i amwynder ardal.
- 2.9 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cefnogi'r cynigion ond holodd a allai absenoldeb sêl bendith Llywodraeth Cymru erydu statws Cyfarwyddyd Erthygl 4 wrth wneud penderfyniadau. Gwnaeth Cyngor Sir Ceredigion fynegi barn debyg.
- 2.10 Gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy groesawu'r cynigion, gan nodi'r cyfle i ACLlau reoli Rhan 31 (dymchwel) ar gyfer adeiladau y mae'n ystyried eu bod mewn perygl. Fe wnaethant hwy a sawl ACLI arall hefyd gwestiynu a fyddai modd cyflwyno ffioedd cynllunio lle mae hawliau datblygu a ganiateir wedi'u tynnu'n ôl.
- 2.11 Roedd rhai awdurdodau lleol hefyd yn gofyn am hyrwyddo dulliau modern o gyfathrebu, megis y cyfryngau cymdeithasol, fel rhan o'r broses ymgynghori.
- 2.12 O'r rhai a oedd yn anghytuno (11 o ymatebwyr), neu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno (5), prin oedd y rhai a ymhelaethodd ar eu penderfyniad a darparu sylwadau. Mae'r themâu allweddol gan y rhai a wnaeth roi sylwadau, yn cynnwys:
- Diffyg cyfle i glywed gwrthwynebiadau drwy broses ffurfiol annibynnol
 - Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn llesteirio datblygu
 - Ni ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar ddatblygu a ganiateir
- 2.13 Awgrymodd un ymatebydd (busnes) fod yn rhaid cael gofyniad am ymgynghoriad lleol cyn i unrhyw Gyfarwyddyd Erthygl 4 ddod i rym, ac felly roedd yn gwrthwynebu 'Cyfarwyddiadau sy'n dod i rym yn uniongyrchol'.

3. Ymateb y Llywodraeth

Yr egwyddor

- 3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth sylweddol i ddiwygio'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4. Gall symleiddio'r gweithdrefnau i wneud Cyfarwyddiadau arwain at ddefnydd ehangach ac annog ACLlau i ymyrryd lle mae amwynder lleol yn cael ei fygwth gan hawliau datblygu a ganiateir.
- 3.2 Mae'r gweithdrefnau newydd yn cefnogi ACLlau wrth reoli arfer yr hawliau datblygu a ganiateir mewn lleoliadau penodol, wedi'u targedu o fewn eu hardal weinyddol lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod niwed yn cael ei achosi i amwynder lleol, lles cymunedol neu'r broses o gynllunio'r ardal yn briodol, neu lle byddai defnydd pellach o hawliau datblygu penodol a ganiateir yn achosi niwed.
- 3.3 Yn anochel, mae hi'n anodd taro cydbwysedd rhwng buddiannau rhanddeiliaid ac nid yw'n bosibl bodloni gofynion pob parti sydd â buddiant wrth greu caniatâd cynllunio cenedlaethol. Bydd y canfyddiad o effaith yn amrywio a bydd gan rai ardal lefelau gwahanol o sensitifrwydd i ddatblygiad newydd. Mae'r GDCG yn ceisio cydbwyso'r angen i ddarparu mwy o ryddid i'r cyhoedd a busnesau fynd i'r afael â datblygiad yn erbyn yr angen i sicrhau bod buddiannau cymdogion a'r amgylchedd ehangach yn cael eu gwarchod. Mae angen Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i sicrhau bod ACLlau yn

gallu ymyrryd lle, ar sail tystiolaeth leol gadarn, y gallai'r cydbwysedd rhwng darparu mwy o ryddid ac effeithiau cynllunio gael eu hystumio.

- 3.4 Dylid nodi nad yw Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn atal datblygiad. Yn hytrach, mae'n ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio gan y ACLI fel y gellir ystyried effeithiau cynllunio'r datblygiad cyn gwneud penderfyniad ynghylch a all fynd rhagddo. Mae cais cynllunio hefyd yn caniatáu lliniaru ar unrhyw effeithiau cynllunio sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig i gael eu cymhwyso drwy drafodaethau gyda'r datblygwr neu drwy amod cynllunio lle bo angen. Nid yw'r cais chwaith yn denu ffi.

Dileu cadarnhad gan Lywodraeth Cymru

- 3.5 Ar hyn o bryd cyfyngir ar y defnydd o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn sgil yr angen i sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, a allai fod yn rhwystr i ACLlau wrth ddefnyddio pwerau o'r fath. Mae dileu'r cam hwn o'r broses yn gosod holl agweddau o ran gwneud Cyfarwyddiadau o fewn cylch gwaith ACLI, gan hwyluso eu cadarnhau, ac o bosibl annog eu defnyddio lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen ymyrraeth leol.
- 3.6 ACLlau sy'n gyfrifol am gynllunio ar lefel leol. Mae dileu'r angen i Gyfarwyddiadau gael eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru yn adlewyrchu'r egwyddor hon. Bydd y dystiolaeth leol a gesglir gan ACLlau yn cefnogi'r penderfyniad i wneud Cyfarwyddyd.
- 3.7 Nid oes angen adolygiad annibynnol o wrthwynebiadau a ddaeth i law drwy'r broses ymgynghori gan fod yn rhaid i ACLlau roi sylw dyladwy i unrhyw wrthwynebiadau a ddaeth i law fel rhan o'r broses ymgynghori.
- 3.8 Er hynny, mae Gweinidogion Cymru yn cadw pŵer i addasu neu ganslo Cyfarwyddyd, sydd yn y pen draw yn cadw'r cydbwysedd angenrheidiol i sicrhau bod Cyfarwyddiadau'n cael eu defnyddio'n briodol.

Ffioedd am geisiadau

- 3.9 Mae pryderon ACLlau ynghylch diffyg ffi am geisiadau a'r effaith ar eu hadnoddau yn cael eu nodi. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn, er tegwch, na ddylai cais cynllunio olygu ffi lle byddai'r datblygiad arfaethedig fel arall yn cael ei ganiatáu gan y GDCG pe na bai'r ACLI wedi tynnu eu hawliau yn ôl i ymgymryd â'r datblygiad rhagnodedig.
- 3.10 Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r galwadau cynyddol ar y system rheoli datblygu, ac fe gyflwynodd amrywiaeth o ddiwygiadau i ffioedd am geisiadau cynllunio yn 2020. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd cyffredinol o oddeutu 20%. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i wneud rhagor o waith ymchwil i'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth rheoli datblygu, er mwyn sicrhau bod modd adennill costau'r gwasanaeth hwnnw.

Ymgynghoriad

- 3.11 Nodir pryderon ynghylch diffyg ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gysylltiedig â 'Chyfarwyddiadau sy'n dod i rym yn uniongyrchol'. Fodd bynnag, nid yw

Cyfarwyddiadau Erthygl 4(1) (y maent yn eu disodli) hefyd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

- 3.12 Mae angen i ACLlau allu ymateb yn gyflym lle gallai defnyddio hawliau datblygu a ganiateir niweidio amwynder lleol neu'r broses o gynllunio ardal yn briodol. Byddai cynnwys proses ymgynghori yn creu oedi o ran ymateb ACLlau, ac fe allai arwain at niwed na ellir ei wrthdroi, fel dymchwel adeilad o bwysigrwydd lleol nad yw'n adeilad rhestredig.
- 3.13 Er hynny, cydnabyddir y dylai'r cyhoedd fod yn rhan o unrhyw benderfyniad lle mae eu hawliau'n cael eu heffeithio. Felly, mae unrhyw Gyfarwyddyd sy'n dod i rym yn uniongyrchol yn gyfyngedig o ran amser, gan ddod i ben ar ôl chwe mis oni bai bod yr ACLI yn ei gadarnhau yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. At hynny, mae'r defnydd o Gyfarwyddiadau sy'n dod i rym yn uniongyrchol wedi'i gyfyngu i'r rhannau canlynol o Atodlen 2 i'r GDCG:
- Rhan 1 (Datblygiad o fewn cwrtill tŷ annedd);
 - Rhan 2 (Mân Weithrediadau);
 - Rhan 3 (Newidiadau Defnydd), ac eithrio datblygiad a ganiateir gan baragraffau (b)(i) a (c)(i) o Ddosbarth I;
 - Rhan 4 (Adeiladau a Defnyddiau Dros Dro);
 - Rhan 31 (Dymchwel Adeiladau);

Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol

- 3.14 Mae defnyddio offer digidol megis gwefannau, microwefannau, a'r cyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd sbectrwm ehangach o'r gymuned ac yn caniatáu i bobl rannu gwybodaeth. Dylid ystyried offer digidol fel rhan o'r dull ymgynghori. Fodd bynnag, mae'n bwysig na ddibynnir yn llwyr arnynt. Bydd cyfuniad o offer digidol a dulliau traddodiadol (hysbyseb leol, hysbysiad safle a hysbysiad uniongyrchol) yn darparu'r ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu â'r gymuned gyfan.

4. Y Camau Nesaf

- 4.1 Bydd gweithdrefnau Erthygl 4 newydd yn cael eu cyflwyno gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir etc.) (Diwygio) (Cymru) 2022.
- 4.2 Bydd y Gorchymyn Diwygio yn ddarostyngedig i weithdrefnau deddfwriaethol perthnasol y Senedd a bydd yn dod i rym yn yr Hydref. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r Gorchymyn Diwygio drwy gyhoeddi llythyr ar wefan Llywodraeth Cymru a'i gylchredeg yn uniongyrchol i bob awdurdod cynllunio lleol.